



# Sefydlu'r fersiwn Gymraeg o'r Warwick-Edinburgh Mental Wellbeing Scale (WEMWBS)

Dr Llinos Haf Spencer, Beryl Coledge, Delyth Prys, Prifysgol Bangor  
Dr Sara Hammond-Rowley, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr




## Cyflwyniad

Er gwaethaf yr angen cynyddol am ymwybyddiaeth iaith a diwylliant mewn ymchwil iechyd, mae prinder mesurau ar gael yn Gymraeg i wella dibynadwyedd a dilysrwydd offerynnau fel mesurau canlyniadau ar gyfer treialon ac astudiaethau ymchwil a gynhelir yng nghyd-destun dwyieithog Cymru. Mae LLAIS yn ran o Uned Treialon NORTH ac wedi'i ariannu gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i nodi, blaenoriaethu a datblygu cyfieithiadau Cymraeg a dilysiadau ieithyddol o fesurau iechyd ar gyfer y seilwaith ymchwil ledled Cymru; ac archwilio ffyrdd o sefydlu'r data dilysu seicometrig i archwilio eu hymateb ymysg poblogaethau gwahanol.

## Nodau ac amcanion dilysiad ieithyddol WEMWBS

I flaenoriaethu a sefydlu fersiwn Gymraeg o fesur llesiant WEMWBS trwy:

- Ymgymryd â chyfieithu a dilysu ieithyddol fersiwn Gymraeg o fesur WEMWBS er budd y cyd-destun clinigol yn ogystal ag ymchwil
- Gwneud y fersiwn Gymraeg o fesur WEMWBS ar gael ar yr adnodd gwe rhyngweithiol, MI-CYM <http://micym.org/llais/static/index.html> er mwyn cynorthwyo clinigwyr ac ymchwilwyr.



## Dull

Dilynwyd proses gam wrth gam gyda chamau rheoli ansawdd a phroffion gwybyddol er mwyn sicrhau bod cywerthedd cysyniadol a semantig yn cael eu cyflawni. Roedd y camau fel a ganlyn. (Gweler <http://micym.org/llais/static/translationsCymraeg.html>)

## Canfyddiadau

Yn ogystal â chyfieithwyr proffesiynol, terminolegydd iaith a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, rhoddodd deuddeg o bobl ifanc o Ogledd Cymru eu barn ar fersiwn o'r WEMWBS yn y sesiynau grŵp ffocws neu mewn cyfweiliadau wyneb yn wyneb i sicrhau eglurder y cwestiynau. Gwnaethpwyd newidiadau i'r geiriad yn seiliedig ar y trafodaethau hyn a sylwadau terfynol y terminolegydd iaith. Dyma rhai o'r newidiadau:

The Warwick-Edinburgh Mental Well-being Scale (WEMWBS)	Fersiwn Gymraeg ar gyfer ei roi ar brawf	Sylwadau gan y bobl ifanc	Sylwadau gan y terminolegydd	Y fersiwn Gymraeg derfynol
I've been feeling relaxed	Rwyf wedi bod yn teimlo fel fy mod wedi ymlacio	G4 – o dan straeu G5 – medru ymlacio G6 – Rwyf wedi gallu ymlacio	Acceptable to include the word 'gallu' as the young people felt that there was something missing.	Rwyf wedi bod yn teimlo mod i wedi gallu ymlacio
I've been feeling good about myself	Rwyf wedi bod yn teimlo'n dda amdanaf fy hun	G1 - am fi fy hun G3 – amdanaf fi fy hun G4 – amdan fy hun	As the young people favoured including 'fi', it is acceptable to include 'i'.	Rwyf wedi bod yn teimlo'n dda amdanaf i fy hun
I've been feeling loved	Rwyf wedi bod yn teimlo fy mod yn cael fy ngharu	G4 – Rwyf wedi bod yn teimlo bod <i>rhywun</i> yn fy ngharu. ( <i>Ond nid yw 'someone' (rhywun) yn y fersiwn Saesneg.</i> )	The language register of the statement was changed in keeping with the changes above.	Rwyf wedi bod yn teimlo mod i'n cael fy ngharu
RARELY	ANAML	G6 – Yn anaml	Is an acceptable change.	YN ANAML
OFTEN	AML	G6 – Yn aml	Is an acceptable change.	YN AML

*“Mae'n bwysig cael holiaduron Cymraeg ar gyfer pobl ifanc Cymraeg fel ni”  
“It's important to have Welsh questionnaires for young Welsh people like us”*

Sylw gan Berson Ifanc

Dolen i'r mesur Cymraeg ar wefan [micym.org](http://micym.org)



*“Mae'n angenrheidiol cael mesurau iechyd a llesiant Cymraeg ar gyfer y boblogaeth leol yma yng Nghymru. Cymraeg ydi iaith gyntaf y rhan fwyaf o'r pobl ifanc sy'n defnyddio ein gwasanaeth”  
“It is necessary to have Welsh health and wellbeing measures for the local population here in Wales. Welsh is the first language of most young people who use our service”*

Sylw gan Glinigydd

Grŵp Ffocws LLAIS/ADTRAC, Galeri Caernarfon 26/06/018

Bydd y fersiwn Gymraeg o'r WEMWBS ar gael o wefan WEMWBS: <https://warwick.ac.uk/fac/sci/med/research/platform/wemwbs/>

## Casgliad

Ers mis Hydref 2018, mae'r WEMWBS wedi bod ar gael i ymarferwyr ac ymchwilwyr eu defnyddio yng Nghymru. Bydd y mesur llesiant hwn o fudd wrth hwyluso pobl ifanc i fynegi eu teimladau yn y Gymraeg. Mae gwaith dilysu ieithyddol LLAIS yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at sefydlu systemau cadarn i sicrhau cynnal a chyflwyno treialon clinigol o'r ansawdd uchaf sy'n cwrrd â gofynion rheoliadol a llywodraethu wrth hyrwyddo dulliau methodolegol o arwyddocâd rhyngwladol. Hyd yn hyn, rhestrir 44 o fesurau canlyniadau ar wefan [micym.org](http://micym.org) ac mae tua 40 o'r rhain wedi'u dilysu'n ieithyddol gan LLAIS, Uned Dreialon NORTH.

## Cyfeiriadau

Tennant, R., Hiller, L., Fishwick, R., Platt, S., Joseph, S., Weich, S., ... Stewart-Brown, S. (2007). The Warwick-Edinburgh Mental Well-being Scale (WEMWBS): development and UK validation. *Health and Quality of Life Outcomes*, 5, 63. <http://doi.org/10.1186/1477-7525-5-63>  
Wild D, Grove A, Martin M, Eremenco S, McElroy S, Verjee-Lorenz A ac Erikson P (2005) Principles of good practice for the translation and cultural adaptation process for patient-reported outcomes (PRO) measures: Report of the ISPOR task force for translation and cultural adaptation. *Value in Health*, 8 (2), 94-104.

## Os oes gennych unrhyw ymholiad, cysylltwch â:

Beryl Coledge or Dr Llinos Haf Spencer  
Cyfarwyddwr LLAIS Swyddog Ymchwil LLAIS  
Uned Dreialon NORTH Trials Unit, Y Wern  
Safle'r Normal Site, Prifysgol Bangor University  
Bangor, Gwynedd, LL57 2PZ

Ffôn: 01248 383153

Ffôn: 01248 38 3171

E-bost: [B.coleedge@bangor.ac.uk](mailto:B.coleedge@bangor.ac.uk)

E-bost: [L.spencer@bangor.ac.uk](mailto:L.spencer@bangor.ac.uk)